CYFRES C7

# amserbeibl

## Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
1 Samuel 20: 1-42



ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 20: 17

*Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 1 Dafydd ar ffo

Roedd y Brenin Saul yn genfigennus iawn o Dafydd. Ceisiodd ei ladd sawl gwaith. Bu'n rhaid i Dafydd redeg i ffwrdd a chuddio oddi wrth Saul. Ond roedd Jonathan, mab Saul, yn dal yn ffrind da i Dafydd. Addawodd Jonathan wneud ei orau i achub bywyd Dafydd.



**C Rhowch y geiriau hyn yn y llefydd cywir.**

**Dafydd Saul Jonathan**

1. Roedd ar S __ __ __ eisiau lladd D __ __ __ __ .
2. Roedd D __ __ __ __ a J __ __ __ __ __ __ yn ffrindiau da.
3. Addawodd J __ __ __ __ __ __ helpu D __ __ __ __ .

Un tro, roedd y Brenin Saul yn cynnal gwledd fawr. Roedd y wledd yn para am rai diwrnodau. Roedd disgwyl i Dafydd ddod yno gan ei fod yn fab-yng-nghyfraith i Saul. Gan fod arno ofn y byddai Saul yn ceisio'i ladd, aeth Dafydd ddim yno. Ar yr ail ddiwrnod, sylwodd Saul nad oedd Dafydd yno a gofynnodd i Jonathan lle roedd e. Ceisiodd Jonathan esbonio wrth ei dad pam nad oedd Dafydd yno, ond roedd Saul yn gwrthod gwrando. Gwylltiodd Saul a thaflu gwawyffon at Jonathan am fentro cymryd ochr Dafydd.

6

**C** **Pwy oedd:-**

1. Y brenin? S __ __ __
2. Mab y brenin? J __ __ __ ___ __ __
3. Mab-yng-nghyfraith y brenin? D __ __ __ ___
4. Ddim yn y wledd? D __ __ __ ___



4

O'r diwrnod hwnnw ymlaen, roedd Jonathan yn siwr y byddai ei dad yn lladd Dafydd pe bai'n gallu ei ddal. Roedd Jonathan eisiau rhybuddio Dafydd ei fod mewn perygl felly aeth o'r wledd i chwilio amdano.
Daeth Jonathan o hyd i Dafydd ei ffrind. Fuon nhw'n siarad â'i gilydd mewn cae am dipyn.

**C** **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.**

1. Aeth Jonathan o'r (dd w l e) __ __ __ ___ i chwilio am (f a dd y D) __ __ __ __ ___.
2. Roedd Dafydd yn (dd u c o i) __ __ ___ __ __ mewn (a c e) __ __ __.

4

Doedd hi ddim yn hawdd i Jonathan ddweud wrth Dafydd fod y Brenin Saul yn ei gasáu a'i fod yn bwriadu ei ladd. Ond, gan fod Jonathan yn caru Dafydd, roedd yn ffyddlon iddo a dywedodd y gwir wrtho. Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym fod:

# Jonathan yn CARU Dafydd fel ei enaid ei hun.

**Lliwiwch y geiriau.**

6

Ymhen ychydig, roedd rhaid i Jonathan adael Dafydd. Aeth Jonathan yn ôl i'r ddinas ac aeth Dafydd yn ôl i guddio. Roedd Dafydd yn ddiolchgar bod ganddo ffrind da oedd yn fodlon achub ei fywyd!
Mae'r Iesu'n fodlon bod yn ffrind i bawb ohonom ni! Mae Iesu'n ein caru ni ac roedd yn barod i farw drosom ni! Pan fyddwn ni'n ymddiried yn Iesu, mae'n dod yn Waredwr ac yn Ffrind i ni.

**cyfanswm**